# Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 7fed o Fedi 2017 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Cilcennin

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Arwel Jones (Cadeirydd), y Cynghorwyr Dai Evans, Helen Evans, Gwyndaf Morgan, Alwen Thomas, Iwan Thomas a Ray Williams.
Y Cynghorydd Sir Marc Davies.
Denfer Morgan (Clerc).

**40 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Nigel Davies, Robert Davies, Helen Evans a John Lumley am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**41 Materion Personol**

Cyfeiriwyd at farwolaeth mam y Cynghorydd Helen Evans a chytunwyd anfon cerdyn o gydymdeimliad i'r Cynghorydd Evans a'i theulu. Nodwyd fod y Cynghorydd John Lumley wedi gadael yr ysbyty ar ôl cyfnod o salwch.

**42 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6ed o Orffennaf 2017.

**43 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

a) Trefniadau Bancio

Dywedodd y Clerc nad oedd wedi cael cyfle i fwrw 'mlaen i symud cyfrifon y Cyngor i Fanc Barclays hyd yn hyn.

b) Llwybrau Cyhoeddus

Cafwyd adroddiad o'r cyfarfod a fu gyda Eifion Jones o'r Cyngor Sir ar faterion yn ymwneud a llwybrau cyhoeddus.

c) Arwyddion Traffig Brown

Nodwyd fod yr arwyddion ar gyfer Tŷ Mawr wedi'u cymryd i ffwrdd ond deallwyd y byddai Pysgodfa Teglan yn ailagor i'r cyhoedd maes o law a bod angen cadw'r arwyddion yn eu lle.

d) Cyfyngiadau Cyflymder / Parcio

Dywedodd y Cynghorydd Sir Marc Davies ei fod wedi cwrdd gyda swyddogion y Cyngor Sir er mwyn trafod y pryderon am draffig yng Nghiliau Aeron ac y

byddai cyflwyno cyfyngiad cyflymder 30 mya yn cael ei ystyried ar gyfer 2019 a disgwylwyd ateb ynghylch y posibilrwydd o atal parcio’n gyfangwbl ar yr heol yr ochr draw i’r ysgol.

**44 Materion Cyllidol**

**PENDERFYNWYD** talu’r canlynol:-

| | |
|---|---|
| Cyflog y Clerc (2il Chwarter): | |
| Mr Denfer Morgan | £266.02 |
| CThEM (TWE) | £66.51 |

**45 Adolygiad o Drefniadau Etholiadol**

Dywedodd y Clerc fod modd trafod hwn yn y cyfarfod nesaf gan taw 10fed Hydref oedd y dyddiad cau ar gyfer derbyn sylwadau ac y byddai’n tynnu’r cwestiynau o’r ddogfen er mwyn hwyluso’r drafodaeth arno ac yn eu hanfon I’r Aelodau.

**46 Cynhadledd Flynyddol Un Llais Cymru**

Rhoddwyd ystyriaeth i’r gwahoddiad i benodi cynrychiolwyr i fynd i Gynhadledd Flynyddol Un Llais Cymru ar 30ain O Fedi yn Llanelweddd.

**PENDERFYNWYD** penodi’r Cynghorwyr John Lumley a Gwyndaf Morgan i fynd i’r Gynhadledd ac i dalu’r ffi o £180.

**47 Hyfforddiant ar Ddatganoli / Trosglwyddo Gwasanaethau**

**NODWYD** fod y Clerc yn mynd i’r hyfforddiant hwn yn Aberystwyth ar 13eg Medi.

**48 e-ddysgu Ymwybwyddiaeth o Ofalwyr**

Nodwyd fod hwn ar gael gan y Cyngor Sir ac y byddai’r Clerc yn dosbarthu’r gwybodaeth i Aelodau.

**49 Unrhyw Fater Cymwys Arall**

Cyfeiriwyd at y materion canlynol gan Aelodau:

a) Cyfeiriodd y Cynghorydd Alwen Thomas at y golau stryd a leolwyd yng Nghiliau Aeron gerllaw’r ciosg a oedd wedi’I orchuddio gan dyfiant coeden.

b) Cyfeiriodd y Cynghorydd arwel Jones at bostyn trydan/Bt oedd wedi ei ddifrodi gerllaw pont Tegfan a chytunwyd atgoffa BT a’r Cyngor Sir o’r angen i’w drwsio a’r perygl i ddefnyddwyr y ffordd petai yn cwympo.

Cytunodd y Cynghorydd Marc Davies ddwyn y ddau fater uchod at sylw'r Cyngor Sir.

c)  Dywedodd y Cynghorydd David Evans y byddai'n trefnu i lwybr a gyfeiriwyd ato yng Nghilcennin gael ei drasho.

d)  Dywedodd y Cadeirydd y byddai cinio blynyddol ym mis Ionawr

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 pm